

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Swyddi gwag

Mae PCGC yn cefnogi anghenion recriwtio eich Practis Meddyg Teulu ac mae ganddi adnoddau amrywiol i'ch helpu.

[WNWRS](#) – nodwch unrhyw swyddi gwag sydd gennych yn y system a gwiriwch fod y swyddi gwag presennol yn cael eu diweddarau yn unol â hynny. Mae hyn yn tynnu sylw Rhanddeiliaid ar draws y GIG ei bod yn bosibl nad yw eich gweithlu yn llawn.

[GPWales](#) – nodwch unrhyw swyddi gwag sydd gennych ar y wefan. Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim, sy'n bwydo NHS Jobs yn awtomatig, fel eich bod yn cael cymaint o sylw â phosibl ledled Cymru a thu hwnt. Mae hyn yn dileu'r angen i nodi manylion eich swydd wag ar Trac, gan y bydd y wefan yn gwneud hyn yn awtomatig i chi. Mae adnoddau ar gael ar [sylfaen Gwybodaeth GP Wales](#) i'ch helpu drwy'r broses.

Cofnodi Orlau Ychwanegol

Cofnodwch unrhyw newid sylweddol yn oriau gwaith staff yn y WNWRS, yn enwedig os ydych yn bwriadu cyflwyno cais am Daliadau Capasiti Ychwanegol.

Yn syml, ychwanegwch gyfartaledd oriau ychwanegol wythnosol yr aelodau staff at yr oriau a gofnodwyd eisoes yn y blwch 'oriau gwaith'. Er enghraifft, os yw Nyrs Johns yn gweithio 20 awr yr wythnos fel arfer, ond mae hi wedi gweithio 52 awr ychwanegol dros y chwarter diwethaf, nodwch 24 yn y blwch 'oriau gwaith' yn ei chofnod staff.

Sesiynau Ymglyfarwyddo

Os ydych yn Rheolwr Practis newydd neu os hoffech glywed mwy am yr Offer Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol, cysylltwch â ni ar yr e-bost isod i ymuno ag un o'n sesiynau ymglyfarwyddo.

Gallwn hefyd fynychu cyfarfodydd grŵp yn bersonol neu ar Teams, felly cysylltwch â ni.

Sesiynau hyfforddiant Cyfreithiol a Risg

Mae tîm Cyfreithiol a Risg PCGC wedi rhyddhau eu rhaglen hyfforddi ar gyfer yr hydref/gaeaf 2022. Gweler y dolenni isod i archebu eich lle neu cyfeiriwch at yr e-bost a anfonwyd ganddynt yn uniongyrchol atoch yn ddiweddar, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y cynnwys a siaradwyr gwadd.

[Dydd Iau 27 Hydref Hyfforddiant GMPI Cymru Gyfan:](#)

Esgeuluster clinigol, y prawf cyfreithiol a chymhellant yr hawlydd 12:30–13:30 Gweminar a sesiwn holi ac ateb

[Dydd Iau 10 Tachwedd Hyfforddiant GMPI Cymru Gyfan:](#)

Camgymeriadau Cyffredin mewn Practisiau Meddygon Teulu 12:30–13:30 Gweminar gyda sesiwn holi ac ateb.

Am ragor o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer pynciau hyfforddi yr hoffech eu gweld yn y dyfodol, cysylltwch â'r tîm drwy anfon e-bost at GMPI@wales.nhs.uk.

Syniadau ac Awgrymiadau

Nid oes rhaid i chi aros tan ddiwedd y mis neu'r chwarter i ddiweddarau'r WNWRS. Mae llawer o bractisiau yn ymgorffori'r system fel rhan o'u prosesau ymsefydlu a staff sy'n gadael, felly caiff ei diweddarau cyn gynted ag y bydd aelodau staff yn cyrraedd neu'n gadael y Practis. Mae hyn yn ddelfrydol, gan fod y WNWRS yn gronfa ddata fyw a dylai fod yn adlewyrchiad cywir o weithlu eich Practis o ddydd i ddydd.

Gwirfoddolwyr

Os oes gennych chi Wirfoddolwyr yn gweithio yn eich Practis, rhwch eu manylion yn y WNWRS. Bellach mae opsiwn i nodi 'gwirfoddolwr' fel Math o Contract yn eu cofnod staff. Mae'n bwysig casglu eu manylion gan y gall gwirfoddolwyr yn aml chwarae rhan bwysig yn y Practis ac efallai y byddant am elwa o GMPI pe baent yn ymgymryd â Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol.

